**ELL 04-02(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 13 Chwefror 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau**

Janice Gregory

**Dirprwyadau**

Ann Jones (Hanner cyntaf y cyfarfod)

**Swyddogion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Keith Davies | Pennaeth, yr Is-adran Safonau a Pherfformiad (Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol) |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, yr Is-adran Rheoli Ysgolion (Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol) |
| Derek Adams | Pennaeth, yr Is-adran Addysg Uwch (Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol) |
| Paul Brown | Tîm y Mesur Addysg (Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol) |
| Catherine Roberts | Yr Is-adran Dysgu Gydol Oes (Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol) |
| Simon James | Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Tony Widdrington OBE | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Catrin Huws | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Cyflwynwyr**

**Yn bresennol:**

***Y Mesur Addysg:***

Don Touhig AS — Is-ysgrifennydd Seneddol

***Ar ran Cymdeithas yr Athrawon a’r Darlithwyr, Cymru:***

Eiddwen Jones — Swyddog Cymru

***Ar ran Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru:***

| | |
|---|---|
| Gethin Lewis | Ysgrifennydd Cymru |
| Dr Heledd Hayes | Swyddog Addysg |
| Roy Davies | Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gyfun Rhydfelen |
| ***Ar ran Cyngor y Prifysgolion dros Addysg Athrawon, Cymru:*** | |
| Yr Athro David Egan | Cadeirydd |
| Dr Siân Williams | Uwch Ddarlithydd, Ysgol Addysg, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig, aelod o Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Pauline Jarman | Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau eraill, heblaw am y rhai a grybwyllir uchod. Nid oedd dim.
2. Yr oedd Janice Gregory wedi ymddiheuro a byddai Ann Jones yn dirprwyo drosti.
3. Atgoffaodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod ar 20 Mawrth yn dechrau am 1.30 p.m.

**Eitem Un: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 04-02(p.1)***

1. Yn ogystal â'r pynciau a oedd yn ei hadroddiad ysgrifenedig, gwnaeth y Gweinidog sylwadau ar y materion a ganlyn:

- Bu'r Gweinidog yn bresennol yn Nhrydedd Gynhadledd Ryngwladol Addysg Uwch "UNIVERSIDAD 2002" yng Nghiwba fel rhan o ddirprwyaeth o Gymru. Yr oedd y ddirprwyaeth wedi ymweld â nifer o ganolfannau ymchwil addysg uwch ac yr oedd y Gweinidog wedi arwyddo Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth â llywodraeth Ciwba;
- Yr oedd Estelle Morris, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi ei dogfen drafod papur gwyrdd mewn cysylltiad â'r cwricwlwm i rai 14-19 mlwydd oed: 'Extending Opportunities; Raising Standards'. Dywedodd y Gweinidog mai'r ddogfen gyfatebol yng Nghymru oedd *'Y Wlad sy'n Dysgu'*, a oedd yn nodi strategaeth addysg 10 mlynedd Llywodraeth y Cynulliad. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Aelodau ei bod yn ystyried yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghorol hon ar hyn o bryd;
- Cadarnhaodd y Gweinidog fod y Cyfrin Gyngor wedi rhoi cymeradwyaeth unfrydol i ailbenodi Ms Susan Lewis yn Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. Yr oedd y Gweinidog, ynghyd â Phrif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wedi ei bodloni gan argymhelliad y ... annibynnol i ailbenodi Ms Lewis.

1. Codwyd y materion a ganlyn yn y drafodaeth:

- **Coleg Arweinyddiaeth** – Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog wneud sylw ar yr angen am goleg arweinyddiaeth i benaethiaid ysgol yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig i'r cyfleoedd iawn fod ar gael i'r holl staff drwy'r system, o Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar hyd at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, drwy Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH). Yr oedd Coleg Arweinyddiaeth Cenedlaethol y DU eisoes yn gweithredu fel coleg rhithiol ac ni theimlai'r Gweinidog ei bod yn briodol sefydlu corff cyfochrog yng Nghymru;
- **Cynlluniau Strategol Addysg** – Dywedodd yr Aelodau fod cyfrifoldeb gan awdurdodau addysg lleol dros fonitro ysgolion drwy Gynlluniau Strategol Addysg a'u bod yn galw am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y rheoliadau hyn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n fodlon cael dadl ar yr ail gylch o Gynlluniau Strategol Addysg ond y byddai angen cynnal hynny cyn Mai 2002, gan fod angen rhoi'r cynlluniau ar waith cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd;
- **Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth** – Gofynnodd yr Aelodau am dderbyn diweddariadau rheolaidd ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth a chytunodd y Gweinidog;
- **Teacherline Cymru** – Teimlai'r Aelodau y byddai adborth o'r llinell gymorth gyfrinachol ar faterion a godwyd gan athrawon yn gymorth gwerthfawr i ddeall y pwysau cyfredol. Croesawodd y Gweinidog yr awgrym hwn a chytunodd i'w fabwysiadu;
- **Tasglu Sgiliau Cymru** –Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi datganiad ar Dasglu Sgiliau Cymru i'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn yn y dyfodol agos;
- **Tâl cysylltiedig â Pherfformiad Athrawon** – Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog wneud sylw ar y ffaith bod Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a Chymdeithas y Prifathrawon Uwchradd wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg a oedd yn nodi y byddent yn pleidleisio i gynnal pleidlais ymysg eu

haelodau ar gynllun Tâl cysylltiedig â Pherfformiad llywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y datganiad i'r wasg yn cyd-fynd â'r trefniadau cyllido yng Nghymru. Dywedodd y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod y fenter hon wedi ei chyllido'n ddigonol yng Nghymru;

- **Setliad Refeniw** – Yr oedd yr Aelodau yn bryderus bod cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y Cynulliad am gynnydd o 6.75 y cant yng nghyllideb awdurdodau lleol ar gyfer 2001-02 yn peri dryswch. Teimlai'r Aelodau nad oedd sicrwydd y byddai digon o arian ar gyfer cyflogau newydd. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith nad oedd cyllid awdurdodau lleol wedi ei bridiannu a bod y cyllido yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU yn gyffredinol. Dywedodd y Gweinidog fod y Mesur Addysg yn cynnig fforwm cyllideb ar gyfer pob awdurdod addysg lleol, i hwyluso trafodaethau cyllidebol gydag ysgolion;
- **Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi** – Cadarnhaodd y Gweinidog fod Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru (Mr Susan Lewis) wedi ei hailbenodi. Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ynghylch y meini prawf a fabwysiadwyd; yn benodol, y gofyniad i ddysgu'r Gymraeg. Dywedodd Richard Davies fod hwn yn benodiad i'r uwch wasanaeth sifil a bod angen sgiliau rheoli ac arwain priodol. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am y meini prawf a ddefnyddiwyd i'r Pwyllgor. Ychwanegodd y Gweinidog fod Ms Lewis wedi ymrwymo i ddysgu'r Gymraeg a'i bod wedi dangos eu sgiliau dwyieithog mewn cyfarfodydd a chynadleddau.

**Eitem Dau: Mesur Addysg**

***Papur: ELL 04-02(p.2)***

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, Mr Don Touhig AS i'r Pwyllgor i roi gwybod i'r Pwyllgor am hynt y Mesur Addysg drwy'r Senedd.

2.2 Gwnaeth Gweinidog y Cynulliad rai sylwadau cyflwyniadol a mynegodd ei bodlonrwydd a'i llongyfarchiadau ar y berthynas waith agos rhwng Swyddfa Cymru a'r Cynulliad; ar lefel y Gweinidogion a'r swyddogion.

2.3 Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd Don Touhig i annerch y Pwyllgor.

- Croesawodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol y cyfle i hysbysu'r Pwyllgor am hynt y Mesur Addysg drwy'r Senedd a disgrifio'r camau a fyddai'n dilyn yn San Steffan. Eglurodd Mr Touhig fod y cyfarfod yn rhan o'r ddeialog bwysig a pharhaus rhwng Swyddfa Cymru a'r Cynulliad ar faterion sydd yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol; dywedodd mai datganoli ar waith oedd hynny;
- Yr oedd yr Is-ysgrifennydd Gwladol wedi darparu nodyn briffio ar y Mesur i holl Aelodau Seneddol Cymru, i'r Arglwyddi ac i aelodau o'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ELL 04-02(p.2);
- Cyflwynwyd y Mesur yn Nh•'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2001 ac yr oedd ei Ddarlleniad Cyntaf ar yr un diwrnod. Trafodwyd yr Ail Ddarlleniad ar 4 Rhagfyr. Yr oedd y Mesur wedi symud ymlaen i'w ystyried gan Bwyllgor Sefydlog ar 11 Rhagfyr;
- Yn ystod y Cam Pwyllgor, a barhaodd hyd 24 Ionawr 2002, yr oedd 579 o welliannau wedi eu cyflwyno. Yr oedd Llywodraeth y DU wedi ystyried pob un o'r rhain yn ofalus iawn, er na fu dadl ar y rhan fwyaf ohonynt oherwydd cyfyngiadau ar amser. Yr oedd dros bedair rhan o bump o ddarpariaethau'r Mesur yn ymwneud â Chymru, 180 o 211 o gymalau;
- Yr oedd nifer y gwelliannau i'r Mesur yn ystod y Cam Pwyllgor yn gymharol fach ac yr oedd y rhain o natur dechnegol yn bennaf neu'n fodd i wella'r drafftio;

- Rhoddwyd yr Adroddiad i'r T• dros ddau ddiwrnod ar 5 a 6 Chwefror, gan ystyried argraffiad newydd o'r Mesur (24 Ionawr: 209 o gymalau) a 157 o welliannau pellach;
- Yr oedd diwrnod cyntaf yr Adroddiad (5 Chwefror) wedi ei lyncu gan ddadl ar 10 gwelliant a oedd yn ymwneud ag 'Arloesedd ac Ymreolaeth'. Yr oedd yr ail ddiwrnod wedi ei gymryd yn bennaf gan ddadl ar Gymalau Newydd ynghylch derbyn disgyblion i ysgolion crefyddol, gan adael ychydig o amser i ystyried gweddill busnes yr Adroddiad. Fodd bynnag, er gwaethaf y cywasgu hwnnw, trafodwyd 23 o welliannau – yn ymwneud â: Tâl ac amodau athrawon; Polisïau derbyn detholus; Dosbarthiadau chwech; a Phwerau (i ysgolion) ffurfio cwmnïau;
- Mewn cyfres o bleidleisiau, cytunwyd ar holl welliannau Llywodraeth y DU;
- Ymrannodd y T• gan gytuno y dylid darllen y Mesur, fel y'i diwygiwyd ar y Cam Adroddiad, y drydedd waith;
- Cyflwynwyd y Mesur i D•'r Arglwyddi ar unwaith ar ôl y Trydydd Darlleniad.

2.4 Disgrifiodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol hynt y Mesur drwy D•'r Arglwyddi a'r camau dilynol.

- Yr oedd angen derbyn cadarnhad o hyd am amseriad camau'r Mesur yn Nh•'r Arglwyddi ond disgwylir iddynt ddechrau cyn y Pasg;

- Yr oedd y broses yn Nh•'r Arglwyddi yn weddol debyg i honno yn Nh•'r Cyffredin, h.y. Darlleniad Cyntaf ac Ail Ddarlleniad, ar ôl Cam Pwyllgor T•'r Arglwyddi, wedyn yr Adroddiad a'r Trydydd Darlleniad. Y gwahaniaethau allweddol oedd:
- Câi Mesurau eu trafod gan Bwyllgor o'r T• cyfan;
- Nid oedd cyfyngiad ar y ddadl ar welliannau;
- Gellid gwneud gwelliannau ar Gam y Trydydd Darlleniad yn ogystal ag ar Gam y Pwyllgor a'r Adroddiad; a
- Byddai'r Pwyllgor Archwilio Pwerau Dirprwyedig yn adrodd ar ryw adeg yn ystod hynt y Mesur drwy'r T•, cyn y Cam Pwyllgor fel arfer. Yr oedd y Pwyllgor hwn yn archwilio'r holl Fesurau pan gyrhaeddent D•'r Arglwyddi ac adroddiadau i'r T• ynghylch a yw darpariaethau'r Mesur wedi eu dirprwyo'n briodol. Nid oedd yn herio'r darpariaethau'n uniongyrchol ond gallai awgrymu ffurf (neu ffurfiau) gwahanol ar is-ddeddfwriaeth.
- Ar ôl Trydydd Darlleniad yn Nh•'r Arglwyddi, deuai'r Mesur yn ôl i D•'r Cyffredin i ystyried unrhyw welliannau y gallai'r Arglwyddi fod wedi eu gwneud iddo. Mae'r Mesur yn mynd yn ôl ac ymlaen wedyn rhwng y ddau D• nes bydd y ddau'n cytuno. O dan yr amgylchiadau arferol, rhaid i Fesur gwblhau'r holl gamau mewn un Sesiwn o'r Senedd.
- Ar ôl cytuno ar destun gan y ddau D•, câi'r Mesur ei gyflwyno i dderbyn Cydsyniad y Frenhines, ac yr oedd hynny'n fwyaf tebygol o ddigwydd yng Ngorffennaf y flwyddyn yma;
- Ar ôl ei wneud yn Ddeddf, daw rhai rhannau o'r Ddeddf (y Ddeddf Addysg 2002) i rym ar unwaith, rhai ar ddyddiad a nodir yn y Ddeddf ac eraill drwy Orchmynion Cychwyn a all weithredu'r cyfan neu ran o'r Ddeddf.
- Ac eithrio materion sydd heb eu datganoli (a darpariaethau sydd yn berthnasol i Loegr yn unig), cychwynnir adrannau Cymru a Lloegr ac/neu Gymru yn unig y Ddeddf yng Nghymru yn ôl ewyllys y Cynulliad Cenedlaethol.

2.5 Codwyd y materion a ganlyn yn y drafodaeth:

- **System gyfun / ysgolion crefyddol** – Yr oedd yr Aelodau'n falch bod y Mesur yn clodfori'r system addysg Gyfun. Gofynnodd y Cadeirydd ym mha fodd yr oedd y Mesur yn berthnasol i faterion fel ysgolion crefyddol pan nad oedd cyfeiriad at fater o'r fath yn ei gynnwys. Cytunodd Mr Touhig nad

oedd darpariaeth yn y Mesur ond dywedodd nad oedd Llywodraeth y DU yn dymuno anghefnogi ysgolion crefyddol;

- **Anghenion Addysgol Arbennig** – Yr oedd yr Aelodau'n ymddiddori yn y Cymalau 184-188 i Gymru yn unig, ar gyfer darpariaeth ranbarthol i Anghenion Addysgol Arbennig ac, yn benodol, sut y byddai hyn yn cysylltu ar sail drawsffiniol â Lloegr. Eglurodd Gweinidog y Cynulliad fod pryder wedi bod nad oedd gan Gymru ei thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ei hun a'i bod yn dymuno cael cydraddoldeb i'r holl blant yng Nghymru;
- **Trosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd** – Cyfeiriodd yr Aelodau at Gymal 191: trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd a gofynasant a oedd bwriad i baratoi deddfwriaeth i hwyluso trosglwyddo disgyblion o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau. Eglurodd y Gweinidog fod tystiolaeth yn dangos dirywiad mewn perfformiad rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Oherwydd hynny, yr oedd ffocws penodol ar drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Er hynny, yr oedd *'Y Wlad sy'n Dysgu'* yn dangos y byddai ystyriaeth i bob pwynt trosglwyddo yn y pen draw;
- **Deddfwriaeth eilaidd**– Mynegodd yr Aelodau ddiddordeb yn y rhaglen ddilynol o ddeddfwriaeth eilaidd. Dywedodd Gweinidog y Cynulliad y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor, wedi i'r Mesur dderbyn Cydsyniad y Frenhines, am ei blaenoriaethau ar gyfer gweithredu deddfwriaeth eilaidd;
- **Arloesedd** – Yr oedd yr Aelodau yn ymddiddori yn yr effeithiau ymarferol o ganiatáu i ysgolion ddilyn arloesedd, o dan Gymal 2. Eglurodd Gweinidog y Cynulliad fod angen i ysgolion gysylltu â'u cymunedau lleol. Fodd bynnag, dylai'r mecanwaith i hybu arloesedd fod yn rhywbeth i'w ystyried yn ei dro, mewn trafodaeth â'r awdurdodau addysg lleol ac ysgolion;
- **Cytundebau partneriaeth** – Yr oedd peth diddordeb mewn perthynas â Chymal 190: pwrpas ymarferol cytundebau partneriaeth rhwng ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau addysg lleol. Eglurodd Gweinidog y Cynulliad mai cymal i Gymru yn unig oedd y cymal hwn. Yr oedd trefniadau gwahanol ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd a byddai'r rheoliadau newydd yn rhoi gwedd eglurach ar y sefyllfa;
- **Cwmnïau** – Yr oedd yr Aelodau yn bryderus ynghylch y gydberthynas rhwng parhad ysgolion gwledig a ffurfio cwmnïau. Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod pa broses y gellid ei chaniatáu i ysgolion osod gwasanaethau ar gytundeb a chymryd benthyg arian a sut y gellid monitro'r broses hon. Dywedodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol fod hyn wedi ei drafod yn y Pwyllgor Sefydlog yn Nh•'r Cyffredin. Natur y rheoliad oedd rhoi cyfle i ysgolion a'u cyrff llywodraethu weithredu'r ddarpariaeth addysg: yr oedd yn caniatáu i gyrff llywodraethu gyflwyno cynigion. Byddai'n rhaid i'r cynigion gael eu cymeradwyo gan awdurdodau addysg lleol ond byddai'r Cynulliad yn paratoi'r fframwaith i'r rheoliadau. Byddai hyn yn gyfle i elwa ar amrywiaeth mewn addysg yn y DU. Dywedodd y Cadeirydd fod rheoliadau ar gyfer sefydlu cwmnïau gan ysgolion yn bod eisoes mewn deddfwriaeth a oedd mewn bodolaeth.
- **Asesiadau Effaith Reoleiddiol** – Teimlai'r Aelodau, er bod gwybodaeth ar asesiadau effaith reoleiddiol wedi ei chynnwys yn y memorandwm eglurhaol i'r Mesur, y dylid cofnodi barn pobl ar yr effaith ar lefel San Steffan. Tynnodd Gweinidog y Cynulliad sylw at y ffaith bod tudalen 73 o'r memorandwm eglurhaol yn cynnwys crynodeb o asesiadau effaith reoleiddiol;
- **Datblygu cynaliadwy** – Gofynnwyd i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a ellid ysgrifennu fframwaith i alluogi ysgolion i brynu bwyd lleol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried y syniad hwn gan ei fod yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Cynulliad i Ddatblygu Cynaliadwy.
- **Gwrthod derbyn plant** - Yr oedd yr Aelodau yn bryderus bod rhai ysgolion wedi gwrthod derbyn rhai plant a gofynnwyd i Weinidog y Cynulliad a fyddai Cymal 191 o gymorth i ddatrys y broblem hon. Nododd y Gweinidog fod dros 90 y cant o ddisgyblion yn derbyn eu haddysg yn eu hysgolion lleol. Yr oedd y ffaith y gallai ysgolion ddefnyddio niferoedd rhestr safonol i lenwi ysgolion yn peri pryder. Rhaid i ysgolion ddyrannu lleoedd ar sail cynhwysedd adeiladau ysgol. Byddai'r fforymau derbyn newydd o gymorth i oleuo ysgolion ac awdurdodau addysg lleol;
- **Cost** – Mynegodd yr Aelodau ddiddordeb yn y gost gyffredinol o weithredu'r holl gymalau Cymreig.

Nododd yr Is-ysgrifennydd Seneddol na weithredir yr holl reoliadau ar yr un pryd. Dywedodd Gweinidog y Cynulliad y byddai'r costau, lle'r oeddent yn hysbys (e.e. y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig), yn cael eu hegluro mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn. Ychwanegodd y Gweinidog y dylai cytundebau partneriaeth fod yn niwtral o ran eu cost.

2.6 Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i'r Is-ysgrifennydd Seneddol a Gweinidog y Cynulliad a'u swyddogion am eu cyflwyniad a'u deunydd briffio a mynegodd gefnogaeth gyffredinol i'r mesurau Cymreig a oedd yn y Mesur.

**Eitem Tri: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg – Tystiolaeth Lafar**

***Papurau: ELL 04-02(p.3), (p.4) a (P.5)***

3.1 Gwrandawodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y cyrff canlynol:

- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr, Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru
- Cyngor y Prifysgolion dros Addysg Athrawon, Cymru

3.2 Yr oedd copi o nodiadau siarad Roy Davies (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon) a Dr Sian Williams (Cyngor y Prifysgolion dros Addysg Athrawon) i'w ddosbarthu ymysg yr Aelodau a byddent yn cael eu rhoi ar wefan y Cynulliad yn ei bryd.

3.3 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- **Dysgu yn y Blynyddoedd Cynnar twy gyfrwng y Gymraeg -**. Dywedodd Eiddwen Jones y byddai hyn yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ddewis yr ysgol ei hun i gyflenwi darpariaeth o'r math hwn ac yn bwysicaf oll, ar ddewis y rhieni. Dwedodd, yn ei phrofiad hi, yr oedd rhieni wedi defnyddio'r dewis hwn yn aml.
- **Addysg Drochi -** Gofynnodd aelodau a fyddai amrywio rhanbarthol yng nghynnig Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr ar gyfer trwytho mewn iaith i bawb o dan bum mlwydd oed. Dwedodd Eiddwen Jones fod y cysyniad o drwytho yn caniatáu i ddwy iaith gydfodoli. Yr oedd y cwricwlwm cyfredol yn mynnu y dylid datblygu cyfleoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr oedd rhaglenni trwytho mewn rhannau eraill o'r byd yn ymddangos yn llwyddiannus, e.e. Canada a Ffrisia. Yr oedd y rhaglenni hyn wedi canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar ac addysg gynradd ac wedi meithrin cysyniad y teulu sydd yn dysgu..
- **Cost -** Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod cost y buddsoddiad cychwynnol mewn rhaglen trwytho fel yr un yr oedd Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr wedi dadlau drosti. Nid oedd gan Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr y wybodaeth i law ond cytunwyd y byddai Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr yn rhoi amcangyfrifon i'r Pwyllgor gyda hyn.
- **Cymraeg gorfodol yng nghyfnod allweddol pedwar -** Roedd gan aelodau ddiddordeb yn yr oblygiadau ymarferol o hyn a'r datgysylltu posibl ymysg disgyblion. Dwedodd Gethin Lewis fod addysgu'r Gymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol Pedwar yn her fawr i athrawon. Ar hyn o bryd, yr oedd llai o athrawon i ymgymryd â'r dasg hon ac yr oedd llai o athrawon yn dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd trefol. Yr oedd rhai athrawon wedi ymgymryd ag addysgu yn y Gymraeg ar wahân i'w meysydd pwnc eu hunain. Felly, yr oedd angen adolygu'r systemau cefnogaeth i athrawon ar lefel Cyfnod Allweddol Pedwar.
- **Diffyg Athrawon Cyfwrng y Gymraeg -** Gofynnwyd i'r cyflwynwyr o Undeb Cenedlaethol yr

Athrawon, Cymru a oedd ganddynt unrhyw syniadau ynghylch mynd i'r afael â phrinder athrawon. Atebodd Dr Hayes fod gyrfaoedd eraill a oedd yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng, h.y. y cyfryngau, wedi dod yn fwy atyniadol. Yr oedd galw am wneud amodau gwasanaeth a chyflog athrawon yn fwy atyniadol. Hefyd, yr oedd mawr angen cryfhau'r cyfleoedd ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Ysgolion trwy gyfrwng y Gymraeg newydd -** Gofynnwyd i Roy Davies beth y gellid ei wneud i gynorthwyo awdurdodau addysg lleol yn eu prosesau o ddethol lleoliadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd. Atebodd Mr Davies fod darparu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd wedi bod yn broses adweithiol yn hanesyddol. Yr oedd angen mecanwaith cynllunio a oedd yn flaengar ac yn fwy strategol.
- **Ymchwil Addysg -** Cytunodd David Egan fod y ffigur presennol o 80 o bobl mewn ymchwil yng Nghymru yn annigonol a bod angen dod â'r corff hwn o bobl at ei gilydd mewn màs critigol. Yr oedd angen syniadau newydd i recriwtio athrawon a chynyddu gallu ymchwil. Yr oedd yn rhaid i'r syniadau hyn gwmpasu Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac addysg yn ei chyfanrwydd.
- **TGCh -** Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod, os byddai buddsoddi helaeth mewn dysgu o bell, sut y gellid defnyddio Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu, fel byrddau gwyn rhyngweithiol, i liniaru'r prinder athrawon. Cytunodd Gethin Lewis fod y bwrdd gwyn rhyngweithiol yn dangos sut y gellid cyrraedd safon uchel o addysgu. Er hynny, yr oedd angen cynyddu nifer yr athrawon proffesiynol a allai addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Modelau o dysgu trwy gyfrwn y Gymraeg -** Roedd gan yr aelodau diddordeb ynghylch pa fodd cyflenwi a oedd yn well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Gofynnodd yr Aelodau ai ysgolion uniaith ynteu ysgolion dwyieithog a oedd yn fwyaf effeithiol. Dywedodd Gethin lewis fod yn rhaid i awdurdodau addysg lleol weithio mewn partneriaeth ag ysgolion. Datblygwyd rhai unedau cyfrwng Cymraeg llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ne Cymru. Yr oedd yr ysgolion wedi datblygu wedyn yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid oedd consensws ar y model gorau ond teimlwyd y gallai ysgolion uwchradd dysgu o'r sector cynradd.

**Eitem Pedwar: Cofnodion y cyfarfod blaenorol, 7 Chwefror 2002**

***Papur: ELL 03-02(mins)***

4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i gadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf. Nid oedd sylwadau.

**Yr oedd dau bapur i'w nodi:**

**Llwybrau Diogel i'r Ysgol**

**Papur: ELL 04-02(p.6)**

**Adroddiad y Gr•p Ymgynghorol Anabledd Dysgu**

**Papur: ELL 04-02(p.7)**

**Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ddydd Mercher 6 Mawrth 2002**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2002**